
# CADW PELLTER CYMDEITHASOL




Ffynhonnell: [Google COVID-19 Community Mobility Reports]
Data ar 07/07/20

# DANFON PARSELI BWYD

**Archebion parseli bwyd a wnaed gyda chyflenwyr:**


- **13,730** hyd at 11 Gorffennaf

**Nifer y danfoniadau y ceisiwyd eu gwneud:**

- **147,169** hyd at 10 Gorffennaf
- **99%** wedi'u rhoi i breswylydd neu eu gadael ar garreg y drws
- **18,327** ohonynt yn ddanfoniadau cyntaf llwyddiannus*

* uwch na'r cyfanswm archebion mwyaf diweddar am fod rhai pobl wedi gofyn i ganslo'r danfoniadau ar ôl derbyn un neu fwy o barseli bwyd

Cefndir pellach ar barseli bwyd i'r rhai sy'n agored iawn i niwed




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Data ar 10/07/20


# Y GRONFA CYMORTH DEWISOL

Rhwng 18 Mawrth a 9 Gorffennaf:

## Gwnaed **37,459** o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ymwneud â COVID-19, gwerth cyfanswm o **£2,320,690**

Dechreuwyd cofnodi ar 18 Mawrth. Mae'r rhesymau cysylltiedig â COVID-19 y mae ymgeiswyr yn eu rhoi yn cynnwys: Gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau gwaith; Oedi o ran hawlio budd-dal; Costau ynni/bwyd uwch (teulu gartref)

Yn dilyn cyhoeddiad 1 Mai o fwy o gyllid, bydd ceisiadau'n cael eu trin â mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd, wrth ddelio â hawliadau caledi COVID-19
[Cefndir pellach i'r CCD]





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Data ar 09/07/20

# CYMORTH I FUSNESAU

Ar 10 Gorffennaf, roedd awdurdodau lleol wedi prosesu **62,401** o ddyfarniadau i eiddo busnes gwerth cyfanswm o **£ 750m** ar gyfer y grant ardrethi busnes Covid-19.

Symudodd pob tîm i ymateb i'r galw, gyd **Banc Datblygu Cymru (DBW)** a'r benthyciadau cyntaf yn cael eu cymeradwyo cyn pen tridiau o lansiad ei gronfa Covid. Mae wedi dyrannu bron **i £100 miliwn i fwy na 1,200 o fusnesau**, gan ddarparu achubiaeth hanfodol sydd wedi diogelu miloedd o swyddi.

Caeodd ail gymal y Gronfa Cadernid Economaidd am **5yh 10 Gorffennaf**. Derbyniodd y gronfa Micro **5,524** o geisiadau Micro Cyfyngedig yn gofyn am **£54.2m** a **453** o geisiadau Masnachwr Micro Unigol yn gofyn am **£4.4m**. Derbyniodd y gronfa Busnesau Bach a Chanolig **679** o geisiadau yn gofyn am gyfanswm o **£38.2m**. Derbyniwyd at ei gilydd **6,656** o geisiadau yn gofyn am gyfanswm o **£96.9m.**
Rhagor o gefndir ar Cymorth i Fusnesau.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Data ar ardrethi busnes fel yr oedd ar 10/07/20
Data Banc Datblygu Cymru fel yr oedd ar 09/07/20
Noder: Data ERF ar 13/07/20

# CRONFA YMATEB COVID-19 Y TRYDYDD SECTOR

**Cronfa Cadernid y Trydydd Sector**

Yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau yn y trydydd sector sydd angen help i ymdopi â'r argyfwng hwn er mwyn talu eu biliau a lliniaru problemau llif arian.

- Mae **64 o geisiadau** wedi'u cymeradwyo a **£2.83 M wedi'i dalu** drwy gronfa cadernid y trydydd sector.

**Cronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol**

Yn cefnogi sefydliadau'r trydydd sector yn y gymuned sy'n cydgysylltu'r ymateb yr ydym wedi'i weld ar draws Cymru i'r cais am wirfoddolwyr, gan eu helpu i dalu treuliau personol eu gwirfoddolwyr.

- Mae dros **130 o geisiadau** wedi'u cymeradwyo a **£5.75 M wedi'i dalu** drwy gronfa argyfwng y gwasanaethau gwirfoddol.

Rhagor o gefndir i Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector

Ffynhonnell: Gwirfoddoli Cymru
Data ar 10/07/20